
# Castell y Gymru fyd-eang

**Geraint Talfan Davies** yn rhannu gweledigaeth Sefydliad Cyfarthfa drwy ddathlu treftadaeth gwaith haearn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn ardal Merthyr Tudful.



Gwaith haearn Cyfarthfa yn yr 1870au, yr olygfa o'r castell wedi'i guddio gan fwg, gan Robert Crawshay (© Amgueddfa Cymru - Museum Wales).



Gellir dadlau bod cyflymder datblygu trefol modern – a chyfathrebu – wedi creu ysfa wrthgyferbyniol i warchod llawer o greiriau a henebion y gorffennol. Mae cymdeithasau hanesyddol a grwpiau cadwraethol yn ffynnu, gan annog cadw adeiladau mawr a bach, rhai sy'n haeddu eu hachub, rhai ddim. Mae'r achos ar ei gryfaf pan ddaw strwythur a stori at ei gilydd i atgyfnerthu arwyddocâd y naill a'r llall.

Mae hyn yn wir heddiw ym Merthyr Tudful lle mae castell meistr haearn, a adeiladwyd ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn nesáu at ei ben-blwydd yn ddau gant oed, o dan fygythiad ac eto o fewn trwch blewyn o gael ei achub a'i adfywio. Castell Cyfarthfa yw'r castell hwnnw, wedi'i leoli mewn parc 160 erw ar ochr ddwyreiniol afon Taf, sy'n wynebu ar yr ochr orllewinol ar lethr dramatig o ffwrneisi o'r ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a adeiladwyd gan Anthony Bacon yn 1765 ac sydd bellach yn Heneb Restredig.

O ystyried amgylchiadau economaidd anodd yr ardal ar hyn o bryd, mae'n hawdd anghofio mai Merthyr Tudful, rhwng 1800 a 1860, oedd y dref fwyaf yng Nghymru a'r ganolfan gynhyrchu haearn fwyaf yn y byd: mae ei chynhyrchion a sgiliau'r gwneuthurwyr wedi lledaenu ar draws y byd. Roedd ei phedwar prif waith – Cyfarthfa, Dowlais, Plymouth a Phenydarren – yn cyflenwi arfau hanfodol yn ystod y Rhyfel Saith Mlynedd, Rhyfel Chwyldro America, y rhyfeloedd Napoleonaidd a Rhyfel Crimea. Yn ystod cyfnodau o heddwch, roedd yr un gweithfeydd yn cyflenwi cledrau ar gyfer rheilffyrdd y byd: ym Mhrydain ar gyfer Rheilffordd Stockton a Darlington, rheilffordd gyhoeddus gyntaf y byd i ddefnyddio trenau stêm, yn ogystal â rheilffordd Lerpwl-Manceinion; yn yr Unol Daleithiau, ar gyfer rheilffyrdd rhwng Baltimore a Susquahanna, a New Orleans a Nashville; yn yr Almaen ar gyfer rheilffordd Berlin-Leipzig; ac yn Rwsia ar gyfer rheilffordd St Petersburg- Pauloffsky.

Roedd gweithwyr o Ferthyr yn allweddol o ran sefydlu gweithfeydd haearn yn Ffrainc a'r Unol Daleithiau. Yn 1869, sefydlodd 100 o weithwyr haearn Merthyr, dan arweiniad y dyn busnes John Hughes, y gwaith haearn a oedd yn sylfaenol i'r ddinas a elwir bellach yn Donetsk, a adwaenid gynt yn Hughesovska (Yuzovska), enw a gadwodd tan 1924 pan ddaeth yn Stalino. Yn anffodus, mae ei henw a'i lleoliad presennol yn Wcráin yn llawer rhy gyfarwydd i ni heddiw.

Ond nid stori o gynnydd a chwymp y diwydiant haearn yn unig yw'r stori y mae Merthyr Tudful yn ganolog iddi, mae'n stori ddynol iawn, yn un o derfysg a gwrthryfel, caledi ac afiechyd. Yn ystod Gwrthryfel Merthyr ym 1831, bu'r glowyr a oedd yn gweithio i William Crawshay (adeiladwr Castell Cyfarthfa), yn protestio ar y strydoedd yn erbyn gostwng cyflogau – gan ddal y dref am wyth diwrnod yn erbyn catrawd o'r Argyll a Sutherland Highlanders, milisia leol a 300 o filwyr iwmyn. Dyma'r tro cyntaf i faner goch gael ei chodi fel symbol o wrthryfel a daeth i ben gyda 24 o farwolaethau (hyd yn oed mwy na'r nifer a gollodd eu bywydau yn y Peterloo Massacre yn 1819) a merthyr poblogaidd newydd, sef Dic Penderyn, yn cael ei grogi am iddo, yn ôl yr honiad, drywanu milwr yn ei goes. Mor ddiweddar â 2016, cyflwynodd Stephen Kinnock AS ddeiseb a 600 o lofnodion arni i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, yn galw am bardwn iddo. Mae p'un a oedd y rhain yn derfysgoedd neu'n 'wrthryfel' yn fater o drafodaeth barhaus.

Daeth y glöwr o'r Alban, Keir Hardie, yn AS Llafur cyntaf y dref yn 1900, a daeth mudo o gefn gwlad Cymru, gorllewin Lloegr a gwledydd Ewrop i'r cymoedd diwydiannol â phoblogaethau newydd yno, gan gynnwys Iddewon, Gwyddelod ac Eidalwyr. Ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, cyfrifwyd bod cyfradd mewnfudo Cymru yn ail i gyfradd yr Unol Daleithiau yn unig.

Mae stori Cyfarthfa a llinachau diwydiannol eraill Merthyr yn un nad yw llawer o blant Cymru (heb sôn am eu rhieni) yn ei gwybod, un sy'n cwmpasu hanes, treftadaeth, newidiadau cymdeithasol a gwleidyddol enfawr, effaith rhyfeloedd byd, dirwasgiad economaidd, ac ymrafael diwydiannol – a digwyddiadau trasig iawn fel trychineb Aberfan. Ni ddylem ychwaith anghofio dwy ganrif o gelfyddyd, a fynegir mewn casgliad hynod wych, gyda llawer ohono'n rhodd gan Gymdeithas Celfyddyd Gyfoes Cymru. Nid oes ryfedd bod Merthyr Tudful wedi cael ei disgrifio fel pair y Gymru fodern.

Trosglwyddodd teulu'r meistri haearn Crawshay berchnogaeth Castell Cyfarthfa i'r awdurdod lleol yn 1908. Bu'r adeilad yn gartref i Ysgol Uwchradd Cyfarthfa tan 2014 ac ers hynny mae 80% o'r adeilad wedi bod yn wag, yn dirywio'n raddol, er gwaethaf ei botensial mawr i gyfoethogi cymuned ymhellach fel esiampl o addysg, creadigrwydd a lles.

Yr adeilad hwn, ynghyd â'i dirwedd gwych, yr ydym yn benderfynol o'i drawsnewid – nid i dacluso amgueddfa ac oriel leol (haeddiannol fel ag y mae hynny), ond yn hytrach i greu un sy'n wirioneddol deilwng o bwysigrwydd byd-eang stori'r dref hon fel canolfan diwydiant a bywyd a diwylliant Cymru: sefydliad o ansawdd rhyngwladol ym mhob ffordd – o ran pensaernïaeth, dylunio a thechnegau adrodd stori, ac, yn bwysicaf oll, fel peiriant ar gyfer adnewyddu cymdeithasol, mewn lleoliad sydd ei angen ac yn ei haeddu. ●

Geraint Talfan Davies yw Cadeirydd, Sefydliad Cyfarthfa.
cyfarthfafoundation.wales